



# GwE

## Bwletin TGAU 2015 / PISA

### Cyflwyniad

Fel paratoad ar gyfer y TGAU newydd mewn Cymraeg Iaith Gyntaf, Saesneg a Mathemateg ym mis Medi 2015 (a Gwyddoniaeth yn 2016), rhoddodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i'r pedwar Consortia rhanbarthol wneud cais am gyllid; roedd cais GwE yn llwyddiannus a chafodd cyllid ei gadarnhau am flynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16.

Hwn yw trydydd bwletin 'TGAU 2015 /PISA' GwE, a'r bwriad yw gadael i ysgolion wybod beth yw'r datblygiadau hyd yma, datblygiadau'r dyfodol o ran prosiect 'TGAU 2015 / PISA' ynghyd â datblygiadau cysylltiedig eraill.

### Datblygiadau hyd yma

'Ysgolion Arweiniol' y rhanbarth yn y pedwar pwnc craidd yw:

- **Saesneg: Ysgol Bryn Elian** (Ymarferwr Arweiniol: **Louise Wallace**)
- **Mathemateg: Ysgol Eirias** (Ymarferwr Arweiniol: **Zoe Evans**)
- **Cymraeg: Clwstwr Gwynedd (Ysgol Botwnnog/Ysgol Tryfan/Ysgol Dyffryn Ogwen)**  
(Ymarferwyr Arweiniol: **Tegwen Llwyd / Esyllt Maelor / Cheryl Roberts / Jeni Lyn Morris / Dafydd Roberts**)
- **Gwyddoniaeth: Ysgol yr Alun** (Ymarferwr Arweiniol: **Andy Rees**)

Er sicrhau bod deunyddiau Mathemateg a Gwyddoniaeth yn gwbl ddwyieithog ac yn cynnwys dimensiwn Cymreig, mae Ysgol Glan Clwyd yn gweithio gydag Ysgol Eirias o ran Mathemateg, tra bo ysgolion Môn yn gweithio gydag Ysgol Alun o ran Gwyddoniaeth.

Cynhelir y gweithdai cyntaf ar hyn o bryd (wythnos yn dechrau 9 Chwefror ac wythnos yn dechrau 23 Chwefror) ym mhob pwnc craidd yn y tri hwb (Môn/Gwynedd, Conwy/Sir Ddinbych a Sir y Flint/Wrecsam).

## Datblygiadau'r dyfodol

Mae 'Platform', a gomisiynir gan GwE, ar gyfer gosod yr adnoddau / deunyddiau yn cael ei ddatblygu a hyderir y bydd hwn yn 'fyw' erbyn diwedd mis Chwefror.

Yn dilyn arfarnu'r gweithdai, byth trafodaethau ar symud y prosiect ymlaen yn ystod 2015-16. Rhagwelir y bydd rhagor o weithdai yn cael eu cynnal. Yn ogystal â hyn, bydd yr 'Ymarferwyr Arweiniol' ar gael i gefnogi ysgolion unigol / clystyrau o ysgolion.

Gan nad yw'r TGAU Gwyddoniaeth newydd yn cael ei gyflwyno tan mis Medi 2016, bydd cymorth ar gyfer Gwyddoniaeth yn dechrau yn nhymor yr hydref 2015-16.

Cynhelir Cynhadledd Genedlaethol wedi'i threfnu gan GwE ym mis Mawrth i amlygu arfer dda fel ymateb i agenda PISA. Dyma'r siaradwyr yn y gynhadledd:

- David Hyerle o America, arbenigwr ym maes 'medrau meddwl'.
- Yr Athro Donaldson
- Dr Brett Pugh

Rhan annatod o'r gynhadledd fydd 'cyflwyniadau' gan Ysgolion Arweiniol ar draws Cymru i amlgyu arfer dda mewn Dysgu ac Addysgu mewn perthynas ag agenda PISA.

I gofrestru ar gyfer y gynhadledd, ewch i:

<http://gwe.web01.blahwebserver.com/>

## Datblygiadau eraill

### 1) Bagloriaeth Cymru:

Mae GwE yn cefnogi ysgolion wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru diwygiedig ym mis Medi 2015. Mae'r cymorth hwn fel a ganlyn:

- Pedwar 'Ymarferwr Arweiniol' wedi'u penodi i arwain ar y gwaith datblygol
  - **Hywel Parry: Ysgol John Bright**
  - **Gwenno Jarvis: Ysgol Dyffryn Conwy**
  - **Catherine Jones: Ysgol Glan Clwyd**
  - **Gill Ovens: Ysgol Uwchradd John Summers**
- Pedwar gweithgor wedi'u sefydlu – mae pob grwp yn datblygu cynlluniau dysgu enghreifftiol ar gyfer y 3 'Her': Her Cymunedol / Her Dinasyddiaeth Fyd-eang / Her Menter a Chyflogadwyedd a'r Prosiect Ungiol

- Datblygwyd grŵp adnoddau i adnabod adnoddau addas sydd ar y Wê i'w defnyddio ar gyfer datblygu sgiliau.
- Hybu sefydlu grwpiau Cydlynwyr Bagloriaeth Cymru yn yr Awdurdodau Lleol
- Hybu sefydlu Grŵp Bagloriaeth Cymru Rhanbarthol i gynnwys cynrychiolwyr o bob Grŵp Bagloriaeth Cymru yr Awdurdodau Lleol
- Cynhelir Cynhadledd Ranbarthol ar 15 Mai i rannu adnoddau ac arfer dda

Bydd yr holl adnoddau a gynhyrchir i'w gweld ar y 'Platfform' sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

## 2) Gweithredu Cam 1: adolygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu

Rhwng rwan a diwedd tymor yr haf bydd cymorth ar gael i ysgolion y rhanbarth i baratoi ar gyfer gweithredu Cam 1 y Rhaglenni Astudio Diwygiedig a fydd yn statudol ym mis Medi 2015. Bydd GwE yn parhau i ddefnyddio ysgolion ac ymarferwyr blaenllaw i arwain ar y gwaith hwn. Bydd cymorth ar gyfer y Rhaglenni Astudio fel a ganlyn:

- **Cymraeg/Saesneg/Llythrennedd: Elan Davies, Ysgol Dyffryn Conwy**
- **Mathemateg/Rhifedd: Gemma Hawkins Ysgol John Bright**

Mae Penaethiaid wedi cael trosolwg o'r prif newidiadau yn ogystal ag amlinelliad o'r gefnogaeth a fydd ar gael. Bydd sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwr' ar gael yn fuan yn nhymor yr haf ar gyfer Penaethiaid Adran Saesneg/Cymraeg a Mathemateg neu gydlynwyr llythrennedd/rhifedd.

## 3) Cwestiynau yn ôl meini prawf PISA:

Mae 90 cwestiwn yn ôl meini prawf PISA mewn Gwyddoniaeth, Mathemateg a darllen ar gael ar 'Hwb' i fyfyrwyr ac athrawon roi cynnig arnynt. Mae'r cwestiynau yn gyfan gwbl ar gyfrifiadur. Ewch i wefan 'Hwb' i ddefnyddio'r cwestiynau hyn:

<https://hwb.wales.gov.uk/>

## 4) Profion PISA NFER:

Mae 28 ysgol uwchradd ar draws Gogledd Cymru wedi bod yn cymryd rhan yn yr asesiadau yn ystod mis Ionawr a Chwefror. Ni fydd y profion yn dod i farn ar berfformiad disgyblion unigol ond yn hytrach yn gyfle i gasglu gwybodaeth gwella ysgol ar gyfer yr ysgol gyfan. Ym mis Ebrill, bydd yr ysgolion a gymerodd ran yn cael adroddiad cynhwysfawr yn dangos eu perfformiad o'i gymharu ag ysgolion mewn gwledydd eraill ac ysgolion yn y Deyrnas Unedig.

## 5) Astudiaeth PISA, 2015

Bydd Astudiaeth PISA 2015 yn cymryd lle yn ystod Tymor yr Hydref 2015-16, a dewisir sampl o ysgolion ar draws Cymru i gymryd rhan yn yr Astudiaeth gan yr 'OECD'.

Gwahoddir yr ysgolion sydd wedi eu dewis i gymryd rhan yn yr Astudiaeth gan 'RM' – a fydd yn gweinyddu'r prif Astudiaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Dechreuodd y broses i ddewis ysgolion ar Chwefror 2<sup>ail</sup>, a bydd wedi ei chwblhau erbyn Gorffennaf 22<sup>ain</sup>, 2015.

## Dyddiadau ar gyfer y dyddiadur

- **Cynhadledd Genedlaethol:  
dydd Iau, 26 Mawrth 2015, Venue Cymru, Llandudno**

Siaradwyr:

- David Hyerle o America, arbenigwr ym maes 'medrau meddwl'
- Yr Athro Donaldson
- Dr Brett Pugh

Rhan annatod o'r gynhadledd fydd 'cyflwyniadau' gan Ysgolion Arweiniol ar draws Cymru i amlgyu arfer dda mewn Dysgu ac Addysgu mewn perthynas ag agenda PISA.

I gofrestru ar gyfer y gynhadledd, ewch i:

<http://gwe.web01.blahwebserver.com/>

- **Cynhadledd Ranbarthol Bagloriaeth Cymru:  
dydd Gwener 15 Mai 2015, Gwesty'r Imperial, Llandudno**  
Rhannu adnoddau a gynhyrchwyd a rhannu arfer dda

Am ragor o fanylion am wybodaeth sydd yn y bwletin hwn, cysylltwch â :

Peter Maddocks, Uwch Ymgynghorydd Her  
GwE, Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn LL28 4UL  
0300 500 8087 / 07810813325  
[petermaddocks@gwe.org.uk](mailto:petermaddocks@gwe.org.uk)